# PWYLLGOR SAFONAU

Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd M.A. Morgan (Cadeirydd)

**Aelodau Annibynnol:**
D. Evans, J. James a A. Williams;

**Y Cynghorwyr:**
S.J.G. Gilasbey, R. James a G.B. Thomas;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin: 10.00 yb - 11.20 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Mary Dodd.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. COFNODION - 6 RHAGFYR, 2019

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2019 yn gofnod cywir.**

## 4. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD ANNE CARYS JONES

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Sir Carys Jones am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) fel y gallai siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn unig mewn perthynas â busnes sy'n ymwneud â pharcio ar y Grîn yn Llansteffan.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Jones fuddiant personol yn y mater hwn yn rhinwedd paragraff 10(2)(a)(vi) o Gôd Ymddygiad yr Aelodau gan ei bod hi a'i theulu yn byw'n union gyferbyn â'r darn o dir dan sylw.

Roedd buddiant y Cynghorydd Jones hefyd yn rhagfarnol petai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Jones wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Carys Jones SIARAD A CHYFLWYNO SYLWADAU YSGRIFENEDIG YN UNIG mewn perthynas ag unrhyw fater y cyngor sy'n ymwneud â pharcio ar y Grîn yn Llansteffan, a bod y gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd y cyfnod etholiadol presennol.**

## 5. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD EDWARD THOMAS

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Sir Edward Thomas am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) fel y gallai siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Llandeilo Fawr mewn perthynas ag unrhyw fater y cyngor sy'n ymwneud â dyfarnu grantiau gan y Cyngor Tref i Gymdeithas Chwaraeon Llandeilo a'r Cylch.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Thomas fuddiant personol yn y materion hyn yn rhinwedd paragraff 10(2)(a)(ix)(ee) o Gôd Ymddygiad yr Aelodau gan ei fod yn Gadeirydd Cymdeithas Chwaraeon Llandeilo a'r Cylch.

Roedd buddiant y Cynghorydd Thomas hefyd yn rhagfarnol petai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Thomas wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Edward Thomas SIARAD YN UNIG yng nghyfarfodydd Cyngor Tref Llandeilo Fawr mewn perthynas ag unrhyw fater y cyngor sy'n ymwneud â dyfarnu grantiau gan y Cyngor Tref i Gymdeithas Chwaraeon Llandeilo a'r Cylch, a bod y gollyngiad yn ddilys tan ddiwedd y cyfnod etholiadol presennol.**

## 6. CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD KEN LLOYD

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais gan y Cynghorydd Sir Ken Lloyd am ollyngiad o dan ddarpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) fel y gallai siarad a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig yn unig mewn perthynas â busnes y cyngor sy'n ymwneud ag Ynni Sir Gâr Cyfyngedig, sef cymdeithas budd cymunedol sy'n gweithredu yn y sir, neu sy'n debygol o gael effaith ar y gymdeithas honno.

Dywedwyd bod y cais am ollyngiad wedi'i wneud oherwydd bod gan y Cynghorydd Lloyd fuddiant personol yn y mater hwn yn rhinwedd paragraff 10(2)(b)(v) o Gôd Ymddygiad yr Aelodau gan ei fod ef a chysylltiadau personol agos yn aelodau o'r sefydliad hwnnw ac yn dal cyfranddaliadau ynddo.

Roedd buddiant y Cynghorydd Lloyd hefyd yn rhagfarnol petai aelod o'r cyhoedd, o wybod yr holl ffeithiau, yn ystyried yn rhesymol fod y buddiant hwnnw mor

arwyddocaol fel y byddai'n debygol o amharu ar farn y Cynghorydd ynghylch budd y cyhoedd.

Gan hynny, roedd y Cynghorydd Lloyd wedi gofyn am ollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Yn dilyn trafodaeth,

**PENDERFYNWYD caniatáu gollyngiad o dan Reoliadau 2 (d) a (f) o Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001 i'r Cynghorydd Ken Lloyd SIARAD YN UNIG mewn perthynas â materion amgylcheddol cyffredinol ond nid materion sy'n ymwneud yn benodol ag Ynni Sir Gâr Cyfyngedig hyd nes cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Medi 2020.**

## 7. UNRHYW EITEMAU ERAILL O FUSNES BRYS

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

| ____________________________ | ____________________ |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |